CPS

# Strategaeth Trais yn erbyn Menywod a Merched, 2008-2011: Asesiad o Lwyddiant

# Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| Rhagair gan y Twrnai Cyffredinol | 2 |
| Rhagair gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus | 3 |
| 1 Cyflwyniad | 5 |
| 2 Pam wnaethom ni ddatblygu strategaeth VAWG? | 7 |
| 3 Sut wnaethom ni weithredu'r strategaeth? | 8 |
| 4 Beth oeddem am ei gyflawni gyda'r strategaeth hon ac a oeddem yn llwyddiannus? | 10 |
| o Gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y CJS | 10 |
| o Gwella hyder y cyhoedd a rhanddeiliaid | 13 |
| o Gwella diogelwch, cefnogaeth a bodlonrwydd y dioddefwr a'r tystion | 15 |
| o Gwella ein dealltwriaeth o faterion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (E&D) | 18 |
| 5 Beth oedd buddion y strategaeth hon? | 20 |
| o Gwasanaeth mwy effeithlon | 20 |
| o Arbenigedd integredig ar VAW | 22 |
| o Gwell cefnogaeth i ddioddefwyr | 23 |
| o Ymgysylltu cymunedol mwy effeithiol ac effeithlon | 25 |
| 6 Edrych i'r dyfodol – sut fydd y CPS yn parhau i flaenoriaethu VAWG | 26 |
| o Gwella effeithiolrwydd | 26 |
| o Gwella ansawdd | 26 |
| Geirfa | 28 |
| Atodiad A: Prif gerrig milltir yn ystod oes y strategaeth | 32 |
| Atodiad B: Sefydliadau'r Grŵp Ymgynghori Allanol | 37 |

# Rhagair gan y Twrnai Cyffredinol

Uchelgais y llywodraeth hon yw dod â Thrais yn erbyn Menywod a Merched (VAWG) i ben. Ers i mi ymgymryd â'r swydd, bu'n fwriad gennyf sicrhau bod Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cyfrannu at y nod hwn trwy leihau'r risg i fenywod a merched sy'n ddioddefwyr y troseddau hyn a sicrhau y bydd troseddwyr yn dod o flaen eu gwell ar draws yr amrediad o droseddau VAWG.

Bob blwyddyn yn y DU, mae dros filiwn o fenywod yn dioddef cam-drin yn y cartref[1], ymosodir yn rhywiol ar dros 300,000 o fenywod a bydd dros 60,000 o fenywod yn cael eu treisio[2]. Mae hyn yn gwbl annerbyniol. Rydym yn wynebu her wrth godi hyder y dioddefwyr i roi adroddiad ar y digwyddiadau hyn yn y lle cyntaf – bydd llai nag un o bob pedair o'r rhai sy'n dioddef trais gan bartner[3] a thua un yn unig ym mhob deg o fenywod sy'n profi trais rhywiol difrifol yn rhoi adroddiad amdano i'r heddlu[4], cyfraddau sydd hyd yn oed yn is pan yw'r dioddefwr dan ddeunaw oed. Rhan greiddiol o waith y llywodraeth a'r CPS felly yw herio agweddau y dylanwadir arnynt yn aml gan fythau a stereoteipiau am drais yn erbyn menywod.

Gofynnais i'r CPS wneud asesiad o strategaeth VAWG y CPS fel fy mod i'n gallu rhoi sicrwydd ein bod ni'n cynnal momentwm yn y maes hwn. Mae'r adroddiad hwn yn dangos bod y CPS wedi parhau i gynyddu'r nifer o droseddwyr a ddaw o flaen eu gwell - o 51,974 yn 2007-08 i 66,860 yn 2011-12 tra hefyd yn gwella ansawdd yr erlyniadau, o gyfradd deilliannau llwyddiannus o 69% yn 2007-08 i 73% yn 2011-12, a gyda threisio yn benodol o 58% yn 2007-08 i 62.5% yn 2011-12.[5]

Ni fyddai'r llwyddiant hwn yn bosibl heb waith caled erlynyddion y CPS, sydd wedi gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill, grwpiau rhanddeiliaid a gwasanaethau cefnogi dros y blynyddoedd.

Mae'r Cyfreithiwr Cyffredinol a minnau yn bwriadu sicrhau bod y CPS yn cynnal ei ffocws ar roi blaenoriaeth i fynd i'r afael â VAWG, ac yn parhau i weithio gydag adrannau eraill y llywodraeth tuag at ein nod ar y cyd i ddileu Trais yn erbyn Menywod a Merched.

**Y Gwir Anrh Dominic Grieve QC AS**
**Twrnai Cyffredinol**

---

[1] Smith, K. et al. (2012) Homicides, Firearm Offences and Intimate Violence 2010/11. Bwletin Ystadegol y Swyddfa Gartref 02/12. Llundain: Y Swyddfa Gartref.
[2] ibid 1.
[3] ibid 1.
[4] Smith, K. et al. (2011) Homicides, Firearm Offences and Intimate Violence 2009/10. Bwletin Ystadegol y Swyddfa Gartref 01/11. Llundain: Y Swyddfa Gartref.
[5] Bydd asesiad mwy manwl o'r ffigurau hyn ar gael yn hwyrach yn y flwyddyn yn ein Hadroddiad ar Droseddau VAWG.

# Rhagair gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus

Y CPS oedd yr adran gyntaf o'r llywodraeth i ddatblygu strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod a Merched. Buom yn adeiladu ar ein llwyddiannau o ran erlyn trais yn y cartref i wella perfformiad ar draws mathau eraill o VAWG trwy weithredu gam wrth gam. Ers fy mhenodiad yn Gyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus bu'n flaenoriaeth bersonol gennyf i hybu'r agenda hon ymhellach.

Caiff f'ymrwymiad i'r mater hwn ei rannu gan y Prif Weithredwr a'n Prif Erlynyddion y Goron. Rwyf yn bersonol wedi ymweld â phob un o'n swyddfeydd CPS a siarad â'n staff rheng flaen sy'n ymwneud ag erlyn mewn achosion VAWG ac wedi fy mhlesio gan lefel yr ymroddiad a'r arloesi, gan gynnal y ffocws ar roi blaenoriaeth i VAWG yn yr amser ariannol anodd hwn.

Yn ystod oes y strategaeth adolygodd neu cyhoeddodd y CPS ddeuddeg ffurf gwahanol o ganllawiau cyfreithiol a/neu bolisïau ar gyfer ein herlynyddion gan anelu at ddelio â materion oedd yn codi, newidiadau mewn deddfwriaeth a gwella perfformiad. Derbyniodd pob un o'n 3000 o erlynyddion hyfforddiant ar Drais yn y Cartref (DV) ac mae dros 800 o erlynyddion wedi eu hyfforddi fel arbenigwyr ym maes treisio.

Mae ymgysylltu â chymunedau a rhanddeiliaid yn hanfodol i sicrhau tryloywder ac atebolrwydd. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid lleol a chymunedau trwy'r Paneli Craffu ac Ymgysylltu Lleol, ac yn genedlaethol trwy'r Grŵp Ymgynghori Allanol VAWG.

Yn ystod camau olaf y strategaeth hon mae'r ffocws wedi bod ar ansawdd, gan ganiatáu i ni adeiladu ar arfer da sy'n bodoli eisoes a mynd i'r afael â pherfformiad gwael yn effeithiol. Trwy broses sicrwydd VAWG yr ydym wedi cyflawni hyn – bob chwe mis rwyf yn derbyn adroddiad ar ansawdd erlyniadau VAWG gan uwch reolwyr. Mae'r broses hon wedi llwyddo i sicrhau bod y polisi'n cael ei weithredu'n well o'r cyfnod cyn cyhuddo hyd at gyflwyno'r achos yn y llys. Dengys y ffigurau diweddaraf am 2011-12 bod yna welliant pellach yn ein cyfradd deilliannau llwyddiannus i 73%.[6]

Tra bod dwyn troseddwyr i gyfraith yn un o brif amcanion y CPS, rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd gwella diogelwch y dioddefwr. Mae'n anodd mesur llwyddiant hyn, er i'n hadroddiad a gomisiynwyd yn ddiweddar i ddiogelwch dioddefwyr sy'n mynd trwy'r system cyfiawnder troseddol ddangos bod 72% o'r dioddefwyr mewn achosion pan fyddwn wedi penderfynu cyhuddo yn gweld y cam-drin yn dod i ben.

[6] Bydd asesiad mwy manwl o'r ffigurau hyn ar gael yn hwyrach yn y flwyddyn yn ein Hadroddiad ar Droseddau VAWG.

Mae'r strategaeth VAWG wedi sicrhau sawl budd i'r gwasanaeth – erlyniadau mwy effeithlon, gwell gweithredu ar y polisi, gwell cefnogaeth i ddioddefwyr ac ymgysylltiad cymunedol mwy effeithiol ac effeithlon.  Caiff y rhain eu harchwilio mewn mwy o fanylder dan yr adran buddion yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

Byddwn yn parhau i weithio'n galed i wella ein perfformiad a sicrhau cyfiawnder ar gyfer y troseddau hyn.

**Keir Starmer QC**
**Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus**
**Gorffennaf 2012**

# 1 Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi asesiad o effeithiolrwydd strategaeth Trais yn erbyn Menywod a Merched y CPS[7] (VAWG) o ran cyflawni ei nodau gwreiddiol. Mae'r adroddiad yn dangos sut y datblygwyd y strategaeth a'i rhoi ar waith, beth a gyflawnwyd, buddion y strategaeth a'r camau nesaf i'r CPS i brif ffrydio'r gwaith parhaus i fynd i'r afael â VAWG. Mae'r strategaeth, y cynlluniau gweithredu a'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb cysylltiedig, a gyhoeddwyd yn 2008 ar gael ar wefan y CPS: www.cps.gov.uk/publications/equality/vaw/index.html

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi sicrwydd i'n partneriaid, cydweithwyr yn y gwasanaeth cyfiawnder troseddol, a'r cyhoedd bod strategaeth VAWG y CPS wedi llwyddo i gyflawni ei nodau, sef gwella ansawdd erlyniadau VAWG, codi hyder y cyhoedd a'r ymateb i ddioddefwyr; ond hefyd yn cydnabod bod yna waith ar ôl i'w wneud. Mae'r CPS yn parhau i weithio gyda gwasanaethau dioddefwyr, cydweithwyr cyfiawnder troseddol ac adrannau eraill y llywodraeth i fynd i'r afael â VAWG a phrif-ffrydio buddion y strategaeth hon.

Y CPS oedd yr adran llywodraeth gyntaf i ddatblygu strategaeth VAWG. Ers hynny rydym wedi gweld datblygu strategaeth traws-lywodraeth ar gyfer mynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod a Merched, a'r Cynlluniau Gweithredu cysylltiedig, y bydd y CPS yn cyfrannu ati. Mae'r cynlluniau gweithredu mwyaf diweddar ar gael ynwww.homeoffice.gov.uk/crime/violence-against-women-girls/.

Dechreuodd prif ffocws strategaeth VAWG y CPS gyda thrais yn y cartref a threisio, gan adeiladu ar yr arfer da o ran cyfiawnder troseddol oedd wedi'i ddatblygu yn yr ymateb i'r llinynnau VAWG annibynnol hyn, megis Llysoedd Arbenigol Trais yn y Cartref. Yn ystod datblygiad y strategaeth, daethpwyd â gwaith ar linynnau eraill VAWG i mewn a deliwyd â materion oedd yn dod i'r amlwg o fewn dull VAWG o fynd ati.

[7] Pan ddatblygwyd y strategaeth yn 2007 cafodd ei henwi yn strategaeth VAW. Yn ystod oes y strategaeth ychwanegodd y CPS ati i wneud yn glir bod 'Merched' hefyd yn cael eu cynnwys a newid yr enw i VAWG i adlewyrchu ein swyddogaeth i erlyn cam-drin plant a cham-drin o fewn perthynas rhwng rhai yn eu harddegau, yn unol â datblygiad y strategaeth traws-lywodraeth.

**Beth mae'r strategaeth VAWG yn ei gynn**wys?

Mabwysiadodd strategaeth VAWG y CPS ddiffiniad y Cenhedloedd Unedig o VAW, fel yr amlinellir yn Atodiad A.  Yn benodol canolbwyntiodd y strategaeth ar:

- Drais yn y cartref, gan gynnwys aflonyddu[8]
- Priodas dan orfod
- Yr hyn a elwir yn droseddau anrhydedd
- Llurgunio organau rhywiol merched
- Treisio a throseddau rhywiol
- Y fasnach mewn pobl er mwyn camfanteisio'n rhywiol
- Puteindra, gan gynnwys puteindra plant
- Troseddau yn erbyn pobl hŷn[9]
- Cam-drin plant[10]
- Pornograffi – cyhoeddiadau anllad
- Aflonyddu rhywiol yn y gweithle

Ar gyfer rhai troseddau o fewn VAWG, nid oes troseddau penodol y gellir eu defnyddio wrth erlyn, ond os bydd trosedd yn dod o fewn polisi penodol, o fewn  diffiniad cytunedig, yna fe'i herlynir fel y cyfryw. Er enghraifft, nid oes trosedd benodol o "drais yn y cartref" (DV), felly erlynir achosion o DV, sy'n dod o fewn y diffiniad traws-lywodraeth a Pholisi DV y CPS, dan amrediad o droseddau eraill o ymosodiad cyffredin i lofruddiaeth.

Yn 2008/09 datblygwyd rôl y cydgysylltydd VAWG ymhellach i ddod â chydgysylltwyr trais yn y cartref a threisio ynghyd o fewn un rôl ac ymgorffori yr hyn a elwir yn drais seiliedig ar anrhydedd (HBV) a phriodas dan orfod (FM). Sefydlwyd Eiriolwr CPP i arwain y gwaith ar draws Ardaloedd. Hyfforddwyd erlynyddion mewn HBV, FM, masnachu mewn pobl, pornograffi ac anlladrwydd. Yn 2009/10 cyhoeddwyd canllaw i gyflogeion ar VAWG. Yn 2011/12 cyhoeddwyd canllaw cyfreithiol ar Lurgunio Organau Rhywiol Merched a Stelcio ac Aflonyddu a gwnaethom ymateb i faterion oedd yn codi mewn erlyniadau e.e. cyhuddo o wyrdroi cwrs cyfiawnder mewn achosion yn cynnwys honiadau o dreisio neu drais yn y cartref. Mae rhestr lawn o gerrig milltir ar gael yn Atodiad A.

Caniataodd y gweithredu cam wrth gam hwn i ni ddatblygu sail gadarn i berfformiad yn VAWG i adeiladu arno pan fyddai materion yn codi. Roedd datblygiad y strategaeth yn cael ei hybu o flwyddyn i flwyddyn ar lefel genedlaethol gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus a'r Prif Weithredwr ac ar lefel leol gan Brif Erlynyddion y Goron, eiriolwr VAWG a chydgysylltwyr VAWG[11].

---

[8] Defnyddiwyd aflonyddu yn strategaeth VAWG y CPS yn lle'r term  "stelcio" a ddefnyddir gan Dileu Trais yn erbyn Menywod (EVAW), cynghrair genedlaethol o sefydliadau ac unigolion yn gweithio i ddileu trais yn erbyn menywod.

[9] Yn ystod cyfnod y strategaeth gwelwyd bod Troseddau ynerbyn Pobl Hŷn (CAOP) yn wahanol i droseddau VAWG eraill yn yr ystyr mai'r prif ffactor o fewn CAOP yw oedran yn hytrach na rhyw, yn sgil hynny symudwyd CAOP i'r rhaglen Troseddau Casineb yn 2008/09.

[10] panfydd yn gorgyffwrdd â thrais yn erbyn menywod, a merched.

[11] Gweler trefn llywodraeth ym mhennod 3 am fanylion ar y rolau hyn.

# 2 Pam wnaethom ni ddatblygu strategaeth VAWG?

Diben dwyn y mathau hyn o droseddau ynghyd, sydd wedi'u cyfeirio'n anghyfartal tuag at fenywod a merched, oedd sicrhau bod yr arbenigedd a'r profiad a gafwyd wrth ymdrin â rhai llinynnau yn dylanwadu ar rai tebyg o ran eu natur. Roedd angen cydnabod a deall y patrymau rhyw a'r ddeinameg cysylltiedig er mwyn darparu ymateb priodol ac effeithiol o ran erlyn. Wrth gydnabod y ddeinameg hon nid yw'r CPS yn esgeuluso cam-drin dynion na chamdriniaeth a gyflawnir gan fenywod. Bydd gan ddioddefwyr gwrywaidd yr un mynediad i amddiffyniad ac iawn cyfreithiol ac nid yw rhyw y drwgweithredwr yn gwneud gwahaniaeth i'r modd y bydd y CPS yn dwyn troseddwyr o flaen eu gwell. Mae ein holl bolisïau presennol yn niwtral o ran rhyw, a chânt eu cymhwyso'n deg a chyfiawn i holl ddioddefwyr troseddau ac erlynir yr holl ddiffynyddion yn unol â'r *Cod ar gyfer Erlynyddion y Goro*n.

Nid bwriad y strategaeth felly oedd llunio polisi newydd ar VAWG ond yn lle hynny i:

- Ddatblygu fframwaith strategol trosfwaol ar gyfer camau i fynd i'r afael â VAWG a chanllawiau ar y rhyngberthynas rhwng amryfal bolisïau a chanllawiau VAWG presennol ar draws yr amrediad o droseddau.
- Datblygu cynlluniau gweithredu ategol i resymoli ac integreiddio'r gwaith presennol ar droseddau VAWG.
- Cynnwys gwaith ar faterion mewn perthynas â drwgweithredwyr, dioddefwyr, tystion a staff CPS.

# 3 Sut wnaethom ni weithredu'r strategaeth?

Yn 2008 sefydlwyd y prosiect gyda chyfarwyddyd clir gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus, Syr Ken Macdonald QC i sicrhau bod y CPS yn cynnig y gwasanaeth gorau posibl i ddioddefwyr Trais yn erbyn Menywod a Merched. Cynhaliwyd ymgynghoriad cenedlaethol a derbyniwyd ymatebion gan amrediad o asiantaethau. Cyhoeddwyd y strategaeth derfynol a'r cynlluniau gweithredu cysylltiedig yn Ebrill 2008: www.cps.gov.uk/publications/equality/vaw/index.html

### Trefn Llywodraeth

Darparodd Uwch Swyddog Adrodd (SRO) ar gyfer y prosiect, Cyfarwyddwr yr Uned Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, arweiniad a chyfeiriad yn gyffredinol i sicrhau cyflawni buddion y prosiect gan gadw at y costau a'r amserlenni cytunedig. Roedd yr SRO yn derbyn cefnogaeth gan fwrdd prosiect a oedd yn cynnwys y Cyfarwyddwr Strategaeth a Pholisi a'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau. Cymrodd un o reolwyr y strategaeth VAWG gyfrifoldeb dros reoli'r rhaglen, gan fwrw golwg dros waith tîm VAWG cenedlaethol, dan arweiniad yr Uned Cydraddoldeb ac Amrywiaeth gyda staff yn gysylltiedig o'r Cyfarwyddiaethau Polisi a Gweithrediadau. Galwyd Grŵp Sicrwydd Prosiect ynghyd i gefnogi gweithredu'r strategaeth; yn cynnwys staff CPS allweddol ar bob lefel o fewn y sefydliad ac o Swyddfa'r Twrnai Cyffredinol. Datblygwyd cynlluniau gweithredu blynyddol ac adroddwyd arnynt bob blwyddyn trwy Adroddiadau ar Droseddau VAWG, sydd ar gael yma: www.cps.gov.uk/publications/equality/vaw/index.html

Roedd y Grŵp Ymgynghori Allanol VAWG yn hanfodol i lwyddiant y strategaeth oedd yn cynnwys rhanddeiliaid o'r sector gwirfoddol ar draws holl linynnau VAWG, y ceir rhestr ohonynt yn Atodiad B. Cadwodd y grŵp hwn y gwaith ar y trywydd iawn i sicrhau newid fyddai'n cael effaith er gwell ar y menywod a'r plant hynny oedd yn profi'r math hwn o drais.

Rôl arall hanfodol yn y strategaeth oedd rôl eiriolwr VAWG, un o Brif Erlynyddion y Goron gafodd ei ddewis o'r Ardaloedd i fod yn eiriolwr dros y materion dan sylw. Rôl yr eiriolwr hwn oedd annog Ardaloedd i roi blaenoriaeth i wella perfformiad yn y maes hwn tra'n ad-drefnu systemau, delio gydag unrhyw rwystrau rhag gweithredu polisïau VAWG; a darparu cyswllt i'r Ardaloedd trwy adnabod arfer da a'i rannu ar draws y gwasanaeth.

Roedd yr eiriolwr VAWG yn derbyn cefnogaeth o fewn y rôl gan rwydwaith o gydgysylltwyr VAWG, a oedd yn gyfrifol am weithredu polisi yn yr Ardaloedd, gan ddarparu cyfeiriad strategol ar gyfer ymgysylltu cymunedol a rheoli perfformiad. Cyn y strategaeth VAWG roedd yna gydgysylltwyr trais yn y cartref a chydgysylltwyr treisio ar wahân mewn Ardaloedd. Erbyn 2011 roedd yr holl Ardaloedd wedi penodi cydgysylltydd VAWG oedd yn goruchwylio trais yn y cartref, treisio, yr hyn a elwir yn drais seiliedig ar anrhydedd, priodas dan orfod a llurgunio organau rhywiol merched (FGM).

## Ailstrwythuro

Er mwyn ymateb i'r toriadau cyllido a orfodwyd ar y CPS gan Adolygiad Gwariant y Llywodraeth yn Hydref 2010, aeth y CPS ati i wneud toriadau a chynilo a pharatoi'r sefydliad i gymryd mantais lawn ar y datblygiadau mewn technoleg trwy ailstrwythuro proffil Ardaloedd y CPS o 42 i 13 Ardal.

Caiff perfformiad Ardaloedd ei fonitro yn erbyn Safonau Ansawdd Craidd y CPS i sicrhau y cynhelir y safonau perfformiad disgwyliedig o fewn y strwythur newydd.

**Beth yw Safonau Ansawdd Craidd?**

Cyhoeddwyd y Safonau Ansawdd Craidd ym Mawrth 2010 gan osod y prif ofynion ar gyfer erlyniad llwyddiannus yn glir. Maent yn hysbysu aelodau'r cyhoedd am y lefel o wasanaeth y gallant ei ddisgwyl gan y rheiny sy'n erlyn ar eu rhan. Maent hefyd yn hysbysu staff y CPS o'r hyn a ddisgwylir ganddynt a sut y byddant yn atebol am ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Mae Safonau Ansawdd Craidd yn caniatáu i ni adeiladu ar yr arfer da presennol a mynd i'r afael â pherfformiad gwael yn effeithiol.

www.cps.gov.uk/publications/core_quality_standards/

Cyfunwyd rôl y cydgysylltydd VAWG yn ystod y cyfnod hwn hefyd, o 42 i 13; mae'r cydgysylltwyr hyn yn awr yn gyffredinol yn gweithredu ar lefel strategol o fewn yr Ardal (Dirprwy Brif Erlynydd y Goron neu Uwch Erlynydd Rhanbarthol y Goron) sydd wedi galluogi mwy o rannu ar arfer da a chadw golwg ar arferion lleol. Mae hyn wedi galluogi'r gwasanaeth i barhau i gyflawni buddion y strategaeth VAWG.

# 4 Beth oeddem am ei gyflawni gyda'r strategaeth hon ac a oeddem yn llwyddiannus?

Mae'r adran nesaf yn amlinellu camau gweithredu a gynigwyd dan bob un o nodau'r strategaeth VAWG ac yn rhoi adroddiad ar y deilliannau. Mae rhestr lawn o gerrig milltir ar gael yn Atodiad A.

## Gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y CJS trwy ddod â mwy o droseddwyr VAWG o flaen eu gwell

Gosodwyd systemau ar gyfer monitro perfformiad ac ymdriniwyd â gwelliannau trwy osod canllawiau, rhoi hyfforddiant, rhannu arfer da a'r defnydd o gydgysylltwyr.

### Monitro perfformiad

Yn 2008 fe wnaethom ni gyflwyno dangosydd VAWG, a'n galluogodd i reoli perfformiad trais yn y cartref, treisio a throseddau rhywiol bob chwarter. Yr adeg yma roedd y ffocws ar dargedau i leihau athreuliad, gan gydnabod yr angen i ddelio â'r materion yr oedd angen gwella arnynt. Cwrddodd y CPS â'r targedau ymestynnol hyn a osodwyd yn nwy flynedd gyntaf y strategaeth.

Yn 2010/11 symudodd y llywodraeth oddi wrth berfformiad seiliedig ar dargedau at ddulliau mwy ansoddol a seiliedig ar dueddiadau. Adlewyrchwyd y symudiad hwn gan y CPS trwy gyflwyno Monitro Safonau Ansawdd Craidd (CQSM) sy'n monitro tueddiadau Ardaloedd o ran ansawdd delio ag achosion o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol. Fe wnaethom ni hefyd ehangu ein golygon nid yn unig i edrych ar athreuliad ond hefyd ar grynswth, beth oeddem ni'n ei wneud cyn cyhuddo a sut oeddem ni'n defnyddio datrysiadau tu allan i'r llys. Fe wnaethom ni hefyd ddechrau monitro perfformiad mewn masnachu pobl, yr hyn a elwir yn drais seiliedig ar anrhydedd a phriodas dan orfod yn ystod camau olaf y strategaeth.

**Beth yw CQSM?**

Yn dilyn lansio Safonau Ansawdd Craidd (CQS) ym Mawrth 2010, datblygwyd trefn monitro perfformiad newydd. Fel rhan o'r system newydd, adolygir tua 18,000 o ffeiliau bob blwyddyn i asesu cydymffurfiad â'r Safonau Ansawdd Craidd.

Mae'r broses adolygu ffeiliau, a elwir yn Fonitro Safonau Ansawdd Craidd (CQSM), yn gofyn i reolwyr asesu o leiaf chwe ffeil y mis o'u cymharu â 34 ymrwymiad a nodir yn y Safonau Ansawdd Craidd. Ategir yr asesiadau hyn gan broses adolygu gan gymheiriaid lle bydd rheolwr arall yn asesu o leiaf 24 ffeil dros gyfnod o ddau fis. Bydd hyn yn gymorth i sicrhau bod asesiadau yn gyson a chadarn ar draws y gwasanaeth. Yn ystod y cyfnod o Hydref 2010 i Fawrth 2011, aseswyd dros 10,000 o ffeiliau. Roedd tua 78% o'r ymrwymiadau yn y ffeiliau hyn eisoes wedi eu cyflawni yn llawn. O'r gweddill, roedd 11.5% wedi eu cyflawni'n rhannol a 10.5% heb eu cyflawni.

Dilysir canlyniadau CQSM ymhellach yn erbyn amrediad o brif fesurau perfformiad a dynnir o'n system rheoli gwaith achos a chronfeydd data corfforaethol eraill. Mae mesurau eraill hefyd wedi'u dewis i fonitro perfformiad yn ôl effeithlonrwydd a chynhyrchiant, trais yn erbyn menywod a merched, troseddau casineb a materion pobl.

Ar derfyn y strategaeth yn Ebrill 2011 lansiwyd proses sicrwydd VAWG.  Gofynnir i bob Ardal yn awr, i ddadansoddi ac adrodd yn ôl i'r pencadlys ac yn benodol i'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus, bob chwe mis, ar berfformiad, gan dynnu sylw at faterion a chymryd camau i geisio mynd i'r afael ag unrhyw risgiau. O fewn y broses sicrwydd hon, bydd Ardaloedd yn asesu tua chwarter o'u hachosion treisio. Archwilir llwyddiant y system hon wrth wella ansawdd erlyniadau yn yr adran nesaf ar fuddion.

Cyhoeddwn ein llwyddiannau, a'r meysydd i'w gwella yn flynyddol yn yr Adroddiad ar Droseddau VAWG. Mae'r adroddiadau blynyddol hyn ar gael yma: www.cps.gov.uk/publications/equality/vaw/index.html

## Adeiladu gwelliant

Mae'r amryfal bolisïau sy'n bodoli ar wahanol fathau o VAWG yn cael eu gweithredu ar sail yr achos unigol gan ein 3000 o erlynyddion.

Datblygwyd canllawiau cyfreithiol a pholisïau yn ystod oes y strategaeth, a'u hadolygu mewn rhai achosion i gymryd materion oedd yn codi i ystyriaeth. Ymgymerwyd â swm sylweddol o waith gan y Gyfarwyddiaeth Strategaeth a Pholisi i sicrhau bod erlynyddion yn derbyn cefnogaeth wrth ymateb i'r mathau gwahanol o VAWG, darperir rhestr o bob polisi a chanllaw cyfreithiol newydd a/neu wedi'u diweddaru yma:

- polisi DV diwygiedig;
- polisi treisio diwygiedig;
- canllawiau cyfreithiol a fflagio ar briodas dan orfod (FM) a thrais seiliedig ar anrhydedd (HBV);
- canllawiau cyfreithiol ar Fasnachu mewn pobl, yn cael ei ddilyn gan bolisi cyhoeddus ar fasnachu mewn pobl;
- canllawiau VAWG;
- canllawiau cyfreithiol ar sicrhau gorchmynion ataliol;
- canllawiau cyfreithiol ar erlyn cam-drin plant;
- polisi diwygiedig ar gamfanteisio ar buteindra;
- canllawiau cyfreithiol ar stelcio ac aflonyddu;
- canllawiau cyfreithiol ar wyrdroi cwrs cyfiawnder – cyhuddo mewn achosion yn cynnwys treisio a/neu DV; a
- chanllawiau cyfreithiol ar FGM.

Roedd hyfforddi erlynyddion yn flaenoriaeth i sicrhau cysondeb ac ansawdd yng ngweithrediad y polisïau hyn. Ymgymerwyd ag hyfforddi cenedlaethol ar draws tri o'r llinynnau, gydag hyfforddiant ad hoc ar faterion penodol fel yr oeddynt yn codi:

- Hyfforddwyd ein holl erlynyddion ar drais yn y cartref, naill ai trwy hyfforddi wyneb yn wyneb (2005-08) neu drwy fodiwlau e-ddysgu (2008-11) sydd wedi dod yn orfodol ar gyfer pob erlynydd sy'n ymuno â'r Gwasanaeth.

- Ymgymerwyd â rhaglen tair blynedd o hyfforddiant ar gyfer erlynyddion arbenigol ar dreisio o 2008-11, yn cynnwys cwrs deuddydd wyneb yn wyneb seiliedig ar astudiaethau achos real yn cynnwys mewnbwn gan ddau arbenigwr allanol (yn cynnwys meddygon, rheolwyr Canolfannau Cyfeirio Ymosodiadau Rhywiol, Ymgynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol ac academyddion) ar feddyginiaeth fforensig ac effeithiau seicolegol camdriniaeth rhywiol a mythau ac ystrydebau. Erbyn terfyn y strategaeth (Mai 2011) roeddem yn cyflogi 845 o arbenigwyr hyfforddedig o'r fath.

- Yn 2010 trefnwyd hyfforddiant arbenigol ar gyfer rhai erlynyddion arbenigol Ardal mewn FM a HBV, yn cynnwys gweithredu'r canllawiau gydag astudiaethau achos a mewnbwn gan nifer o bartneriaid aml-asiantaethol sy'n arwain yn y maes hwn – yn cynnwys yr Uned Priodasau dan Orfod, Southall Black Sisters ac Imkaan. Defnyddir yr erlynyddion hyn (hyfforddwyd tua nawdeg ohonynt) fel pwynt cyswllt ar gyfer erlyniadau sy'n cynnwys elfen o HBV/FM.

- Roedd hyfforddiant ad hoc yn cynnwys seminarau ar bornograffi ac anlladrwydd; hyfforddiant i erlynyddion ar fasnachu mewn pobl; a hyfforddiant lleol ar gyfer erlynyddion ar gam-drin plant.

### Ymweliadau 'r Cyfarwyddwr

Fel rhan o rannu arfer da a thynnu sylw at statws blaenoriaeth VAWG, ymwelodd y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus â'r 42 rhanbarth yn y CPS yn 2010-11 i gyd i drafod cyflawni gwelliannau, yr heriau wrth erlyn achosion ac arfer da.

Cysylltwyd â Chymorth i Ddioddefwyr a gwasanaethau IDVA lleol cyn bob ymweliad i ofyn am adborth ar berfformiad y CPS o ran cefnogi dioddefwyr a thystion. Tynnodd yr adborth hwn sylw at y modd y cefnogwn ddioddefwyr, yn benodol wrth weithredu a chyfleu mesurau arbennig. Ers i'r materion hyn godi rydym wedi cynnal ymchwil i'n defnydd o fesurau arbennig a fydd yn cael ei gyhoeddi yn 2012.

Rydym wedi cael ein plesio gan ffocws lleol iawn yr adolygiad cyfredol o berfformiad y CPS a gan yr ymrwymiad a ddangosir gan y DPP a chydweithwyr y CPS i ganfod gwir achosion y materion a amlygwyd gennym.

**Rachel Griffin, Cymorth i Ddioddefwyr**

## Gwella hyder y cyhoedd a rhanddeiliaid

Mae ymgysylltu effeithiol â'r cyhoedd a'n partneriaid yn hanfodol i lwyddiant ein herlyniadau er mwyn cynnal hyder ac ymddiriedaeth y cyhoedd. Cynigiwyd a chyflawnwyd camau gweithredu i wella hyder trwy ymgysylltu â'r gymuned ac ymgynghori ar lefel leol a chenedlaethol; gweithio gyda fforymau lleol a sefydliadau arbenigol; a datblygu dulliau i fesur barn rhanddeiliaid.

### Strwythurau cenedlaethol

Roedd gan Grŵp Ymgynghori Allanol VAWG (ECG) rôl allweddol o ran cefnogi'r CPS i roi'r strategaeth VAWG ar waith; mae'r grŵp hwn yn cynnwys sefydliadau cenedlaethol sydd â'r canlynol i'w ddweud am y strategaeth VAWG:

Mae'r CPS yn gofalu eu bod yn ymgynghori â'r sector gwirfoddol a chymunedol i wella'u dealltwriaeth a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt mewn byd sy'n newid drwy'r amser. O ganlyniad i'w gwaith mae mwy o ddrwgweithredwyr yn cael eu herlyn, yn enwedig y rheiny sy'n defnyddio trais yn erbyn eu partneriaid, mae dioddefwyr yn fwy diogel ac mae'r cyhoedd yn gweld proses erlyn fwy ymatebol a pherthnasol. Credaf bod y byd yn fwy diogel a thecach i ddioddefwyr trais yn y cartref a bod yna hyder cynyddol ym mwriadau a gweithgareddau'r CPS fel canlyniad uniongyrchol i waith yr EDU.

**Anthony Wills Prif Weithredwr, Standing Together Against Domestic Violence**

Fe wnaethom gynnal arolwg o randdeiliaid yn 2009-10, a ddarparodd ddulliau i ni o wella ymgysylltiad cymunedol VAWG, cefnogaeth i ddioddefwyr a gweithredu effeithiol ar bolisi VAWG. Fe wnaethom weithredu'r canfyddiadau hyn yn 2010-11.

Ym Mawrth 2011 fe wnaethon ni gyflwyno Panel Craffu Cenedlaethol i ddarparu mecanwaith ymgysylltu cenedlaethol newydd i gefnogi'r CPS wrth nodi'r prif wersi a ddysgwyd mewn achosion troseddau casineb a VAWG amlwg. Bydd y deilliannau yn hysbysu datblygiad polisi lle bo hynny'n briodol.

## Strwythurau lleol

Yn ystod oes y strategaeth buom yn anelu at weithio mewn partneriaethau aml-asiantaethol a fforymau lleol i wella hyder. Darparodd Prif Erlynyddion y Goron a/neu uwch reolwyr neilltuol adroddiadau bob chwe mis i gadarnhau eu hymgysylltiad ar lefel strategol mewn fforymau aml-asiantaethol ar VAWG, yn benodol goruchwylio'r modd y delir ag erlyniadau treisio, a'r cysylltiad cyson gyda'u cydradd o fewn yr heddlu.

Rydym wedi mynd ymhellach na'r ymrwymiad hwn, drwy sefydlu Panel Ymgysylltu a Chraffu Lleol (LSIP) ym mhob Ardal CPS. Adeiladodd y paneli hyn ar y Paneli Craffu Troseddau Casineb a'r Paneli Ymgysylltu Cymunedol oedd mewn bodolaeth tan Mawrth 2011, gyda rhai ohonynt eisoes yn craffu ar achosion VAWG.

**Astudiaeth Achos – Gorllewin Mercia, Gogledd Cymru a Cumbria: Paneli Craffu Trais yn erbyn Menywod**

Daw'r paneli hyn ag aelodau o'r Sector Gwirfoddol a Chymunedol (VCS) i mewn i'r CPS, ynghyd â chyfreithwyr CPS ac ymgynghorwyr cyfreithiol annibynnol i adolygu a chraffu ar y cyd ar ddewis ar hap o achosion o drais yn erbyn menywod oedd wedi'u cwblhau (yn cynnwys trais domestig, trais rhywiol ac ymosodiad rhywiol).

Diben y cyfarfodydd Panel hyn yw gofyn i'r sector gwirfoddol a chymunedol beth allai'r CPS wella arno er mwyn gwella'u hymdriniaeth o'r achosion hyn a'r deilliannau. Mae'r paneli hyn hefyd yn codi ymwybyddiaeth o'r System Cyfiawnder Troseddol (CJS) ac yn gwella hyder yn y penderfyniadau a wneir ganddo fydd yn arwain at hybu dioddefwyr a thystion i roi adroddiad ar ddigwyddiadau. Mae gweithio'n agos gyda'r sector gwirfoddol a chymunedol yn y gwaith craffu hwn wedi cynorthwyo'r CPS i weithio tuag at flaenoriaethau lleol.

Mewn arolwg yn 2009 dangosodd 98% o aelodau'r cyhoedd eu bod yn teimlo bod y CPS yn gwrando ar eu barn a bod 78% yn hyderus y byddai argymhellion a wnaed gan y Panel yn cael eu gweithredu gan y CPS yn y dyfodol agos. Rhoddodd y Paneli hefyd fewnwelediad gwerthfawr i'r CPS i'r pryderon a wynebir gan ddioddefwyr wrth iddynt symud ymlaen drwy'r system cyfiawnder troseddol. Mae hyn wedi galluogi erlynyddion a swyddogion gofal tystion i fod yn fwy sensitif i'w hanghenion a rhoi gwell cefnogaeth iddynt i'w galluogi i roi tystiolaeth o ansawdd gwell a gwella'r posibiliadau o ddwyn troseddwyr o flaen eu gwell.

## Gwella diogelwch, cefnogaeth a bodlonrwydd dioddefwyr a thystion

Roedd gwella diogelwch, cefnogaeth a bodlonrwydd dioddefwyr VAWG yn brif nod strategaeth VAWG y CPS. Roedd y camau a gynigiwyd yn cynnwys gwella'r systemau cefnogi sydd ar gael i ddioddefwyr ac yn arbennig yr Uned Gofal Tystion[12]; yn cymryd diogelwch dioddefwyr sy'n gweithio i'r CPS i ystyriaeth; a datblygu systemau i fesur diogelwch, cefnogaeth a bodlonrwydd y dioddefwr.

Mae'r system Llys Arbenigol Trais yn y Cartref (SDVC) yn hyrwyddo'r defnydd o gefnogaeth arbenigol ar gyfer dioddefwyr VAWG er mwyn gwella diogelwch y dioddefwyr. Yn ystod oes y strategaeth cododd nifer yr SDVCs o 98 i 143. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu cynnydd yn y ddarpariaeth Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol, Cynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol (ISVA), Canolfannau Cyfeirio Ymosodiadau Rhywiol a Chynadleddau Asesu Risg Aml-Asiantaethol.

Roedd gwella diogelwch, cefnogaeth a bodlonrwydd dioddefwyr a thystion llinynnau eraill VAWG, fel FGM, priodas dan orfod, trais seiliedig ar anrhydedd a stelcio hefyd yn flaenoriaeth i'r gwasanaeth. Yn ystod y strategaeth fe weithion ni gydag adrannau eraill drwy weithgorau a byrddau cyflawni traws-lywodraethol sydd wedi goruchwylio gweithredu gwahanol gynlluniau gwaith VAWG y llywodraeth i wella diogelwch dioddefwyr y troseddau hyn.

[12] Mae'r Unedau Gofal Tystion yn rheoli gofal dioddefwyr a thystion o adeg cyhuddo'r diffynnydd (diffynyddion) hyd at derfyn yr achos. Bydd unedau gofal tystion yn cael eu staffio ar y cyd gan yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron

**Astudiaeth Achos– Ei gael yn iawn i'r dioddefwr**

Yn dilyn erlyniad diweddar am drais rhywiol, pan gafodd nifer o ddioddefwyr eu targedu gan aelod o'u teulu eu hunain, ysgrifennodd mam un o'r dioddefwyr at y CPS i ganmol gwaith yr erlynyddion, swyddogion yr heddlu a'r ISVA oedd yn gysylltiedig â'r achos, am fynd 'ymhell tu hwnt i'w dyletswyddau wrth ymdrin â'n hachos a'r ochr sensitif oedd yn perthyn iddo.'

Roedd hwn yn achos pan ymdriniwyd â'r datgeliadau'n llawn cydymdeimlad gan y swyddogion hyfforddedig, gan alluogi'r dioddefwyr i gyflwyno'u tystiolaeth mor ddi-boen â phosib mewn amgylchiadau anodd iawn. Arweiniodd hyn at gychwyn perthynas gadarnhaol iawn rhwng yr erlyniad a'r tystion yn yr achos hwn a gofalodd yr heddlu sicrhau bod y dioddefwyr yn ymwybodol o'r cyhuddiadau pellach oedd i'w cyflwyno.

Roedd y bargyfreithwyr yn cymryd rhan yn gynnar yn yr achos fel y gellid cynnal cyfarfodydd gyda'r dioddefwyr. Roedd tystiolaeth arbennig wedi'i chipio gan swyddogion yr heddlu y gellid bod wedi'i defnyddio fel tystiolaeth o gymeriad gwael neu wrthbrawf gan fod y diffynnydd wedi dweud mewn cyfweliad nad oedd ganddo ddiddordeb yn un o'r dioddefwyr yn arbennig. Cyfnewidiwyd gwybodaeth rhwng asiantaethau CJS yn yr achos hwn yn electronaidd, gan ganiatáu i'r achos gael ei drin yn gyflym.

Am y rhan fwyaf o'r amser roedd cysylltiad â'r dioddefwyr yn digwydd drwy'r ISVA, gan gynnwys cyfleu'r gofynion am fesurau arbennig. O ran y treial ei hun roedd yr un gweithiwr achos ar gael ar gyfer achos cyfan yr erlyniad a hynny eto'n rhoi dilyniant i'r dioddefwyr o ran staff. Roedd y dioddefwyr yn cwrdd â bargyfreithiwr yr erlyniad yng nghwmni'r gweithiwr achos.

Cafwyd y diffynnydd yn euog o 22 cyhuddiad o drais rhywiol, a chafodd ei ddedfrydu i 18.5 o flynyddoedd yn y carchar. Roedd y ddedfryd a dderbyniwyd yn gwbl briodol gan ystyried bod y diffynnydd wedi bwrw ymlaen â threial ac roedd hi'n amlwg bod y dioddefwyr yn fodlon gyda'r ddedfryd ac ymddygiad y tîm erlyn cyfan.

Yn ystod oes y strategaeth rhoddwyd copi o'r Llyfr Aur Cymorth i Fenywod i bob Uned Gofal Tystion, sy'n rhoi manylion am lochesi a darpariaeth cefnogi arbenigol i ddioddefwyr ledled Cymru a Lloegr. Diweddarwyd y Canllawiau ar gyfer Swyddogion Gofal Tystion ar sut i gefnogi dioddefwyr VAWG. Yn 2011 lansiodd y CPS adolygiad o'n hymrwymiadau Dioddefwr a Thystion er mwyn datblygu gwasanaeth y CPS i ddioddefwyr a thystion mewn dull fydd yn ei gwneud yn eglur i'r cyhoedd yr hyn y gallan nhw'i ddisgwyl oddi wrth y CPS; mae'n helpu staff y CPS a phartneriaid i ddeall eu rolau cyflawni a hynny'n targedu'n well yr adnoddau sydd ar gael gan y CPS i helpu'r dioddefwyr a'r tystion hynny sydd fwyaf mewn angen. Fel rhan o'r adolygiad hwn byddwn yn nodi'r dull cefnogi a chyfathrebu mwyaf priodol ar gyfer dioddefwyr VAWG.

Fe wnaethon ni hefyd ddelio â diogelwch dioddefwyr VAWG sy’n gweithio o fewn y CPS drwy ymestyn y Polisi Cyflogeion Trais Domestig i gynnwys holl faterion VAWG – sydd ar gael yn:  www.cps.gov.uk/publications/docs/VAW_employees_guide.pdf

Yn y gorffennol, bu monitro llwyddiant yn erbyn y nod penodol hwn yn broblem gan nad oes systemau cenedlaethol ar gyfer casglu data ar gefnogaeth, diogelwch na bodlonrwydd dioddefwyr[13].

Mae’r CPS wedi ceisio darganfod dulliau o asesu’r effaith a gawn ar wella diogelwch y dioddefwr, gan leihau’r posibilrwydd o y byddant yn cael eu herlid eto. Fe wnaethon ni gomisiynu grwpiau ffocws drwy Gomisiwn Cenedlaethol y Menywod, cynnal arolwg boddhad rhanddeiliaid a gweithio gyda’r Swyddfa Gartref i ychwanegu cwestiynau ynghylch boddhad yn y modiwl natur trais yn y cartref o’r Arolwg Troseddu Prydeinig, a gynhelir bob yn ail flwyddyn.  Caiff y canfyddiadau cychwynnol eu cynnwys yn y bennod ar fuddion.

Er mwyn ceisio pontio’r bwlch mae’r CPS wedi comisiynu adroddiadau ar gyfer y CPS sy’n cyflwyno proffil o’r dioddefwyr hynny a gafodd gefnogaeth mewn perthynas â’r broses llys troseddau ac yr aeth eu hachos ymlaen i’r llys. Mae gwasanaethau cefnogol fel Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol (IDVAs) wedi dangos eu bod yn sicrhau diogelwch pellach i ddioddefwyr ac yn gwella erlyniadau. Yn 2010-11, dangosodd ymchwil gan Gweithredu Cydlynus yn erbyn Camdriniaeth Domestig (CAADA) bod 91 y cant o ddioddefwyr oedd yn derbyn cefnogaeth gan yr IDVAs drwy’r broses cyfiawnder troseddol yn profi camdriniaeth gorfforol; yn  67 y cant o’r achosion roedd y gamdriniaeth hon yn ddifrifol ac yn cynnwys mygu neu dagu. Roedd hanner y dioddefwyr oedd wedi mynd i’r llys yn poeni am eu bywydau a’u chwarter yn poeni y byddai eu plant yn cael eu niweidio.

Yn 2011, dangosodd adroddiad pellach gan CAADA, a oedd yn ffocysu ar leihau neu derfynu’r gamdriniaeth i’r dioddefwyr hynny oedd yn mynd drwy’r system cyfiawnder troseddol bod y ganran o ddioddefwyr oedd yn profi terfyn ar y gamdriniaeth wrth fynd allan o’r gwasanaeth IDVA yn cynyddu ar bob cam o’r broses cyfiawnder troseddol, gyda’r cynnydd mwyaf sylweddol yn digwydd i’r dioddefwyr hynny pan oedd y CPS wedi penderfynu  cyhuddo’r diffynnydd yn dilyn cyflwyno adroddiad i’r Heddlu. Caiff hyn ei archwilio ymhellach yn y bennod ar fuddion.

[13] Nid oedd System Gwerthuso Dioddefwyr a Thystion (WAVES) oedd yn cael ei gydlynu drwy’r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cynnwys barn dioddefwyr VAWG.

## Gwella ein dealltwriaeth o'r materion cydraddoldeb ac amrywiaeth o fewn troseddau VAWG a delio gydag unrhyw anghyfartaledd

Roedd ein camau arfaethedig i sicrhau gwell cymesuredd i ganfod materion oedd yn wynebu nifer o gymunedau; cysylltu ag asiantaethau cefnogi oedd yn gweithio gyda dioddefwyr VAWG a monitro llinynnau VAWG yn ôl rhyw, ethnigrwydd, anabledd, crefydd/credo, oedran a lle bo'n bosibl rhywioledd.

Bu gwelliant yn ein hadrodd ar nodweddion a ddiogelir, h.y. ethnigrwydd, rhyw, oedran (gweler y tabl isod) yn ystod oes y strategaeth; mae gennym waith i'w wneud eto ar gofnodi data dioddefwyr. Bydd y gwaith hwn yn cael ei barhau yn 2012-13 gan Uned Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y CPS, a'r Eiriolwr Amrywiaeth, y Prif Weithredwr.

### Cyfran o broffiliau mesur cyfartaledd diffynyddion a dioddefwyr a gofnodwyd gan y CPS:[14]

| | 2007/08 | 2008/09 | 2009/10 | 2010/11 |
|---|---|---|---|---|
| Rhyw (diffynyddion) | 100% | 100% | 100% | 100% |
| Ethnigrwydd (diffynyddion) | 93% | 93% | 93% | 94% |
| Oedran (diffynyddion) | 99% | 99% | 99% | 99% |
| Rhyw (dioddefwyr) | 44% | 64% | 81% | 87% |
| Ethnigrwydd (dioddefwyr) | 27% | 38% | 47% | 49% |
| Oedran (dioddefwyr) | 41% | 62% | 75% | 76% |

Yn dilyn yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb ac Amrywiaeth VAWG cyntaf, aethpwyd ati i asesu erlyniadau trais yn y cartref (DV) yn ôl ethnigrwydd y diffynnydd. Archwiliwyd gwahaniaethau mewn deilliannau erlyn ar draws grwpiau ethnig Du, Gwyn ac Asiaidd mewn sampl o achosion DV. Archwiliwyd y rhesymau posibl am y gwahaniaethau hyn a hynny'n dangos bod yna ffactorau lluosog ar waith gan nodi pwysigrwydd pryderon dioddefwyr. Nid oedd yna arwydd o unrhyw anghymesuredd 'anghyfiawn'.

Yn dilyn y gwaith hwn yn 2011, rhoddwyd canllawiau i Ardaloedd ar y modd i ymgysylltu ag asiantaethau DV a Du a Lleiafrif Ethnig (BME) i wella ymwybyddiaeth o DV mewn cymunedau BME a chefnogaeth i ddioddefwyr BME. Gwnaethpwyd hyn drwy waith Cydgysylltwyr VAWG a Rheolwyr Cydraddoldeb, Amrywiaeth ac Ymgysylltiad Cymunedol Ardaloedd (EDCEMs), drwy LSIPs, Unedau Gofal Tystion a SDVCs. Cafodd gweithio i wella monitro ethnigrwydd a dadansoddi lleol ar ddata ethnigrwydd DV ei gynnwys yn y canllawiau.

[14] Mae proffiliau diffynyddion yn cael eu cofnodi yn y System Rheoli Achosion (CMS) a dioddefwyr yn y System Rheoli Tystion (WMS).

Mae gwaith y CPS ar drais yn erbyn menywod a merched wedi bod yn allweddol o ran tynnu sylw at faterion ynglŷn â menywod du a lleiafrifol sydd yn profi trais yn seiliedig ar ryw. Yn arbennig, mae ei waith ar briodasau dan orfod a thrais yn seiliedig ar anrhydedd wedi helpu i dynnu sylw at y maes hwn oedd wedi ei esgeuluso yn fawr, ac mae'n galluogi menywod difreintiedig o gymunedau lleiafrifol i gael mynediad at gyfiawnder a'u diogelu rhag trais a chamdriniaeth.

**Hannana Siddiqui, Southall Black Sisters**

# 5 Beth oedd buddion y strategaeth hon?


## Gwasanaeth mwy effeithlon drwy gynnydd mewn pleon euog, a llai o derfynu achosion

Mae gwella effeithlonrwydd yn nod allweddol gan unrhyw adran o'r llywodraeth yn yr amgylchedd ariannol presennol. Yn hanesyddol o ran trais yn y cartref roedd gennym gyfradd uchel wedi eu terfynu – pan oedd yr achos yn erbyn diffynnydd wedi ei derfynu/ei dynnu yn ôl/dim tystiolaeth yn cael ei gynnig gan y CPS ar y cam ar ôl cyhuddo. Mae'r terfyniadau hyn yn costio i'r gwasanaeth, tua 62% o gost treial diannod yn unig. Dangosodd braslun o 2004/05 bod 37% o'r holl erlyniadau DV wedi eu terfynu: erbyn 2011-12 roedd y gyfradd hon wedi gostwng i 21%.[15]


Maes arall ar gyfer effeithlonrwydd yw pleon euog. Yn ystod oes y strategaeth cynyddodd y gyfran o bleon euog o 60% i 66%[16] – sy'n cynnwys rhwng 87% a 90% o'r holl ddeilliannau llwyddiannus. Mae hyn yn golygu bod cyfran uwch o ddioddefwyr yn cael eu harbed rhag y profiad, sy'n aml yn achosi gofid, o fynd drwy'r llys a wynebu eu camdriniwr. Mae pleon euog yn fwy cost effeithiol i ymdrin â nhw, nid ydym angen amser llys ar gyfer y treial nag amser yr erlynydd i baratoi neu gyflwyno'r achos yn y llys. Gall ple euog a sicrhawyd cyn diwrnod penodedig y treial, pan gaiff ei ystyried o'i gymharu â chostau treial tebyg, gyflawni rhwng tua £300 a £900 mewn enillion effeithlonrwydd tybiannol ond bydd hynny'n dibynnu ar p'un a yw'n erlyniad mewn Llys Ynadon neu Lys y Goron. Gall pob ple euog ar ddydd yr achos gyflawni ychydig yn llai – rhwng tua £75 a £600.[17] Mae'r cynnydd mewn pleon euog yn nodedig o ystyried natur y troseddau hyn a'r tebygolrwydd cynyddol o ail erlid a bygwth y dioddefwr, gan arwain at bosibilrwydd o wrthdyniadau ac absenoldeb o'r llys.

[15] Yn yr adran hon rhoddir ffigurau am 2011-12, i gynnwys y flwyddyn yn dilyn prif ffrydio'r strategaeth, er ein bod yn cydnabod bod y rhan helaethaf o'r flwyddyn wedi bod tu allan i'r strategaeth VAWG.
[16] Mae data pellach ar gael yn yr Adroddiadau Troseddau VAWG blaenorol, cyhoeddiad blynyddol sydd ar gael ar ein gwefan yma http://www.cps.gov.uk/publications/equality/vaw/index.html
[17] Cynhyrchir y costau y seilir yr arbediadau hyn arnynt i hysbysu'r CPS o ran dyrannu adnoddau blynyddol, ac nid ydynt yn cynrychioli'r costau gwirioneddol. Nid yw'r holl weithredoedd gwaith achos yn cael eu cynnwys ac felly bydd y costau hyn wedi eu tanddatgan rywfaint.

**Ffigur 1:** **Terfyniadau VAWG**




**Ffigur 2:** **Deilliannau llwyddiannus a phleon euog VAWG**





Mae erlynyddion arbenigol a/neu bwrpasol wedi chwarae rôl sylweddol o ran gwella ansawdd ac effeithlonrwydd ein herlyniadau ac mae'r defnydd o gydgysylltwyr i rannu arfer gorau rhwng erlynyddion wedi gwneud y mwyaf o botensial y rolau hyn.

## Arbenigedd integredig ar VAW ac ymwybyddiaeth erlynyddion o natur amlochrog yr erlyniadau hyn a gwell gweithredu ar y polisi

Mae'r gwelliant yn arbenigedd erlynyddion a gwell gweithredu ar y polisi wedi ei ddangos drwy welliant yn y gyfran athreuliad yn yr erlyniadau hyn a gwelliant yn ansawdd yr ymdriniaeth â'r achosion, a asesir drwy sicrwydd VAWG.

**Ffigur 3:** **Cyfaint VAWG**




Mae'r graffiau uchod yn dangos ein bod wedi gweld maint y gwaith erlyniadau VAWG yn codi o flwyddyn i flwyddyn ers cyflwyno strategaeth VAWG y CPS, o 75,452 yn 2007-08 i 91,466 yn 2011-12, cynnydd o 21%. Nid yn unig yr ydym yn erlyn mwy o achosion, ond rydym yn erlyn yr achosion hynny yn llwyddiannus – gyda nifer yr euogfarnau yn codi o 29%, o 51,974 i 66,860.[18] Mae'r gyfran o ddiffynyddion a gafwyd yn euog ar ôl eu cyhuddo wedi codi o 69% i 73% yn ystod y cyfnod hwnnw.

Yn ystod y flwyddyn ers cyflwyno'r broses Sicrwydd VAWG yn Ebrill 2011, rydym wedi gweld gwelliannau mewn perfformiad ledled Cymru a Lloegr ym mhob un o linynnau VAWG. Mae ffigurau wedi dangos gostyngiad o 1.5% mewn athreuliad o ran DV a 4% o ostyngiad mewn athreuliad o ran treisio; a hynny'n golygu am y tro cyntaf ers cychwyn adrodd ar hyn, bod y CPS wedi cyflawni 73% o ddeilliannau llwyddiannus mewn DV a 62.5% mewn achosion o dreisio, roedd y ffigwr hwn wedi aros ar 59% ers 2009.[19]

---

[18] Yn 2011-12 bu gostyngiad bach ym maint y gwaith erlyniadau VAWG, mae hyn yn adlewyrchu gostyngiad cyffredinol ym maint gwaith erlyniadau'r CPS. Dengys braslun o faint y gwaith VAWG yn Ch4 11-12 o'i gymharu â Ch4 10-11 ostyngiad o 4% o ran maint y gwaith, mae hyn yn cymharu â gostyngiad cyffredinol yn holl erlyniadau'r CPS mewn llysoedd ynadon o 6%.


[19] Bydd dadansoddiad llawn o ffigurau 2011-12 ar gael yn yr adroddiad troseddau VAWG a gyhoeddir yn nes ymlaen eleni.

Er nad yw'n bosibl dweud yn bendant pam bod Ardaloedd yn perfformio'n well yn VAWG, mae'n amlwg bod systemau perfformio ac adroddiadau sicrwydd VAW yn canolbwyntio sylw ar berfformiad yn yr Ardaloedd.

## Gwell cefnogaeth i ddioddefwyr

Dengys ymchwil a gynhaliwyd gan CAADA ar gyfer y CPS yn 2012, sy'n ffocysu ar ostyngiad neu derfynu camdriniaeth i'r dioddefwyr hynny sy'n mynd drwy'r system cyfiawnder troseddol, bod y gyfran o ddioddefwyr sy'n profi terfyn ar y gamdriniaeth wrth adael y gwasanaeth IDVA yn cynyddu ar bob cam o'r broses cyfiawnder troseddol. Y cynnydd mwyaf sylweddol oedd nifer y dioddefwyr hynny lle mae'r CPS yn penderfynu cyhuddo'r diffynnydd yn dilyn cyflwyno adroddiad i'r Heddlu (72% o'i gymharu â 67%).

**Ffigur 4:** **Terfyn ar gam-drin dioddefwyr a gefnogir drwy'r system gyfiawnder**




[ffynhonnell: CAADA]

Er na chafodd parhau â'r achos llys effaith sylweddol pellach ar derfynu camdriniaeth (73% i'w gymharu â 72% ar gyfer cyhuddo yn gyffredinol), roedd cyfrannau uwch o ddioddefwyr yn amgyffred bod gwelliant yn eu diogelwch, ansawdd bywyd a hyder i gyrchu cefnogaeth yn dilyn parhad achos i'r llys. Roedd cyfrannau uwch o IDVAs hefyd yn amgyffred bod gostyngiad mewn risg i'r dioddefwr unwaith y bydd rheithfarn euog wedi'i dyfarnu. Mae cefnogaeth IDVA felly yn allweddol i ddiogelwch dioddefwyr. Mae'r CPS wedi cydnabod gwerth y gwaith aml-asiantaethol hwn ac wedi bod yn hyrwyddo Llysoedd Trais yn y Cartref Arbenigol, gan arwain at drosolwg teiran a gwaith traws lywodraethol i wella'r gefnogaeth i ddioddefwyr drwy IDVAs, ISVAs a SARCs. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y penderfyniad yn 2011 i sicrhau bod £28m o gyllid sefydlog gan y Swyddfa Gartref ar gael ar gyfer gwasanaethau arbenigol hyd 2015, yn cynnwys sicrhau bod cyngor a chyllid ar gael i ardaloedd lleol i gefnogi swyddi cynghorwyr annibynnol ar drais yn y cartref (IDVA), swyddi cynghorwyr annibynnol ar drais rhywiol (ISVA) a rôl cydgysylltwyr y gynhadledd asesu risg aml-asiantaethol (MARAC). Ar hyn o bryd mae yna dros 250 MARAC yn weithredol ledled

Cymru a Lloegr. Yn 2011/12, cyfrannodd y Swyddfa Gartref arian at 87 ISVAs, 54 o swyddi cydgysylltwyr MARAC a 144 o swyddi IDVA.

Cyflwynwyd Rhybuddiadau Penodol Menywod (WSC) yn 2009 i ymdrin ag anghenion troseddwyr pan oedd hanes o gam-drin yn y gorffennol, neu ddibyniaethau wedi'u cydblethu'n agos, yn ogystal â phwysau plant dibynnol. Mae'r rhybuddiadau hyn yn gofyn i'r droseddwraig fynychu canolfan/prosiect i fenywod i asesu anghenion fydd yn archwilio'i hamgylchiadau personol, y ffactorau allai fod wedi ei harwain i droseddu a pha gefnogaeth neu hyfforddiant allai helpu.

**Rhybuddiadau Penodol Menywod (WSC)**

Yng Nglannau Merswy mae'r CPS wedi gweithio gyda'r Gwasanaeth Prawf a'r Ymddiriedolaeth Gofal Iechyd Cynradd mewn dwy ganolfan benodol yn Lerpwl a Phenbedw sy'n cynnig amrediad eang o wasanaethau a chefnogaeth i fenywod. Yn ystod 2011/12, derbyniodd 81 o fenywod WSC gyda chyfradd llwyddiant o dros 80%.

Fel yr adroddwyd yn gynt yn yr adroddiad hwn, mae'r Swyddfa Gartref yn ddiweddar wedi cynnwys cwestiynau ynghylch bodlonrwydd yn y modiwl natur trais yn y cartref o'r Arolwg Troseddu Prydeinig, a gynhelir bob yn ail flwyddyn. [20] Dengys y canlyniadau cychwynnol bod tri ar hugain y cant o ddioddefwyr camdriniaeth gan bartner wedi adrodd ar y gamdriniaeth wrth yr heddlu. Yn yr achosion hynny pan oedd yr heddlu wedi cymryd rhai camau yn erbyn y troseddwr, adroddodd yr ymatebwr bod tua chwarter (23%) o'r achosion hyn wedi mynd i'r llys. Gofynnwyd i'r dioddefwyr a oedd wedi dweud wrth yr heddlu am y gamdriniaeth gan bartner pa mor fodlon oedden nhw gyda'r deilliant, a oedden nhw'n teimlo'n fwy diogel fel canlyniad i'r deilliant a faint o help fu'r heddlu a'r CPS iddynt.

- Roedd tua thri chwarter naill ai yn fodlon iawn (36%) neu'n eithaf bodlon gyda'r deilliant a gawson nhw o fynd at yr heddlu.
- Roedd tua hanner (55%) yn teimlo'n fwy diogel a 14 y cant yn teimlo'n llai diogel ar ôl y deilliant.
- Roedd tua thri chwarter o'r farn bod yr heddlu a'r CPS naill ai yn barod iawn i helpu (39%) neu'n weddol barod i helpu (37%). Dywedodd y chwarter arall naill ai nad oeddynt fawr o gymorth (16%) neu ddim o gwbl (9%).

Mae'r data hwn yn cynnig gwaelodlin da i ni allu parhau i fonitro ein perfformiad o ran bodlonrwydd gyda deilliant erlyniadau. Mae'n galonogol fodd bynnag nodi bod dros dri chwarter wedi dweud eu bod yn fodlon gyda'r deilliant.

[20] *Kevin Smith (Ed.), Sarah Osborne, Ivy Lau and Andrew Britton,(January 2012)* Homicides, Firearm Offences and Intimate Violence 2010/11: Cyfrol Atodol 2 i Droseddu yng Nghymru a Lloegr 2010/1**1 ar gael yn** www.homeoffice.gov.uk/science-research/research-statistics**/**

## Ymgysylltu cymunedol mwy effeithiol ac effeithlon

Erbyn 2009-10 roedd 26 (allan o 42) o baneli Ardal yn craffu ar achosion o drais yn y cartref, chwech yn ymdrin â phob llinyn VAW a phedwar yn ymdrin â threisio. Erbyn 2010, datblygodd 11 Ardal (allan o 13) Baneli Craffu Lleol, erbyn 2011 roedd gan bob Ardal Baneli Craffu Lleol sy'n cynnwys gorchwyl i graffu ar achosion VAWG.

Mae rhai o'r gwersi a ddysgwyd gan y paneli hyn yn cynnwys gwelliannau o ran Cyfathrebu Uniongyrchol gyda llythyrau Dioddefwyr, digwyddiadau ymgynghori gyda chymunedau, ymdrin â FM a HBV ac mae nifer o Ardaloedd wedi datblygu bwletinau i rannu'r gwersi ymdrin â gwaith achos.

# 6 Edrych i'r dyfodol – sut fydd y CPS yn parhau i flaenoriaethu VAWG

## Gwella effeithlonrwydd

Fel pob adran llywodraeth mae gan y CPS rôl wrth wella effeithlonrwydd a gwneud arbediadau sylweddol wrth ddelio ag achosion. Yn y gwaith o fynd i'r afael â VAWG byddwn yn cyfrannu at yr ymdrech hon yn gyffredinol drwy:

- Barhau i ostwng cyfraddau athreuliad a chynyddu cyfradd y pleon euog.
- Gwella ar drosglwyddiad data yn electronaidd oddi wrth yr heddlu at y CPS, yn cynnwys tystiolaeth drwy ddefnyddio offer fel rhestr wirio cyhuddo'r CPS ACPO DV (i'w chyhoeddi yn yr haf).
- Cyfrannu at raglen effeithlonrwydd y CJS, drwy annog ceisiadau cynnar am fesurau arbennig, cymeriad gwael ac achlust lle bo hynny'n briodol a sicrhau bod erlynyddion yn dilyn polisi ar wneud cais am wŷs tystion a'i chyhoeddi lle bo hynny'n briodol.
- Parhau i wneud cais am orchmynion cadw yn y ddalfa mewn achosion, yn cynnwys ar ryddfarn i gyfrannu at ostyngiad mewn ail erlid.

## Gwella ansawdd

Cyhoeddwyd y cynlluniau gweithredu traws lywodraethol ar gyfer 2012-15 ar 8 Mawrth 2012[21] ac yn darparu camau gweithredu lefel strategol ar gyfer pob adran. Drwy'r cynllun hwn rydym wedi ymrwymo i gymryd nifer o gamau i ostwng y risg i fenywod a merched sy'n ddioddefwyr y troseddau hyn a sicrhau y bydd drwgweithredwyr yn dod o flaen eu gwell ar draws holl linynnau VAWG. Byddwn yn:

- Datblygu gwell strategaeth gyfathrebu.
- Yn parhau i hyfforddi ein herlynyddion ar linynnau VAWG, yn benodol materion yn codi megis deddfwriaeth newydd.
- Yn cynnal ymchwil a chymryd camau i ymdrin â'r canfyddiadau, er enghraifft ar ddefnyddio mesurau arbennig, neu wella ansawdd erlyniadau sy'n cynnwys dioddefwyr VAWG dan 18 oed.
- Gweithio gyda'n partneriaid i wella ymatebion lleol i VAWG, er enghraifft cyhoeddi gydag ACPO restr wirio cyhuddo i'w defnyddio gyda DV, neu fynd yn ôl at y protocol ar ddatgelu a ddefnyddir gan awdurdodau lleol, a'r CJS i sicrhau rhannu gwybodaeth briodol ar gam-drin plant, neu weithio gyda Swyddfa Maer Llundain cyn y gemau Olympaidd i ostwng nifer yr achosion o buteindra.

---

[21] Mae'r cynlluniau gweithredu hyn ar gael yma: www.homeoffice.gov.uk/publications/crime/call-end-violence-women-girls/vawg-action-plan

- Ystyried dulliau newydd o ymdrin â thrais, er enghraifft defnyddio SDVCs mewn llysoedd ieuenctid neu wella'r ymateb cyfiawnder troseddol i gamddefnyddio ymddiriedaeth mewn achosion o drais yn y cartref.
- Datblygu cynlluniau gweithredu lleol fydd yn ychwanegu at asesu ansoddol ar erlyniadau VAWG.

Bydd yn bwysig ein bod yn parhau i fod yn dryloyw ynglŷn â'n cynnydd o'i gymharu â'r camau hyn drwy gyhoeddi Adroddiad ar Droseddau VAWG yn flynyddol. Bydd y CPS yn parhau i flaenoriaethu mynd i'r afael â VAWG.

# Geirfa

## Trais yn Erbyn Menywod a Merched

**Trais yn y cartref:** Unrhyw ddigwyddiad neu ymddygiad bygythiol, trais neu gamdriniaeth (seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol neu emosiynol) rhwng y rheiny [22] sydd neu a fu'n bartneriaid agos neu aelodau teuluol, ni waeth beth fyddo'u rhyw neu rywioldeb. Mae aelodau teuluol yn cynnwys mam, tad, mab, merch, chwaer, a thaid a nain, boed yn perthyn yn uniongyrchol, yn deulu yng nghyfraith neu'n llys deulu.

**Treisio:** Unrhyw ddiffynnydd a gyhuddir o un neu fwy o'r troseddau canlynol:

- Adran1 Deddf Troseddau Rhywiol 1956
- Adran5 Deddf Troseddau Rhywiol 1956
    - o Ymgais i gyflawni un o'r troseddau uchod dan y Ddeddf Ymgeisiau Troseddol 1981
- Adran1 Deddf Troseddau Rhywiol 2003
- Adran5 Deddf Troseddau Rhywiol 2003
- Adran30(3) Deddf Troseddau Rhywiol 2003
    - o Ymgais i gyflawni un o'r troseddau uchod dan y Ddeddf Ymgeisiau Troseddol 1981

Annog neu gynllwynio i gyflawni unrhyw un o'r troseddau uchod.

**Troseddau rhywiol ac eithrio treisio:** Unrhyw ddiffynnydd y mae ei gategori prif drosedd, wrth ei gwblhau, yn drosedd rywiol ac eithrio treisio.

**Camdriniaeth Plant:** Unrhyw drosedd droseddol sy'n cydymffurfio gyda'r meini prawf a welir yn Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant ac sy'n ymwneud â dioddefwr dan 18 oed.

Mae camdriniaeth plant yn cynnwys troseddau troseddol corfforol, emosiynol a rhywiol, yn ogystal ag esgeuluso plentyn. Byddai achosion o'r fath fel arfer yn cynnwys, er enghraifft

- ymosodiad gan riant pan na fyddo cerydd rhesymol yn amddiffyniad;
- troseddau rhywiol;
- lladdiad plant;
- creulondeb yn erbyn plant, yn cynnwys esgeulustod;
- puteindra plant;
- aflonyddu;
- cefnu ar blentyn;
- priodas dan orfod yn cynnwys un dan 18 oed;

---

[22] Yn y CPS caiff achosion eu monitro ar gyfer oedolion a'r rhai dan 18 oed.

- pornograffi plant;
- plant wedi'u masnachu;
- cipio teuluol; a
- cham-drin plentyn hanesyddol a'r dioddefwr bellach yn oedolyn.

Mae achosion na ddisgwylid iddynt gael eu fflagio fel arfer yn cynnwys:

- troseddau moduro pan fo'r plentyn wedi ei anafu neu wedi'i ladd;
- esgeulustod meddygol; a
- throseddau eiddo.

Masnachu mewn pobl: Defnyddir y fflag masnachu mewn pobl yn achos:

- Y troseddau sy'n cael eu fflagio yw Deddf Troseddau Rhywiol 2003 (Adrannau 57, 58 and 59); a
- Deddf Lloches a Mewnfudo [Trin Hawlwyr] 2004 Adran 4(1), (2) a (3).

Defnyddir y fflag ar gychwyn yr achos; bydd y fflag hon yn parhau'n ei lle hyd yn oed pan fo'r cyhuddiadau wedi hynny'n cael eu diwygio neu eu gollwng. Os bydd achos yn cychwyn dan drosedd wahanol ac wedyn yn cael ei newid i gyhuddiad o fasnachu, dylid fflagio'r achos ar y cam hwnnw.

Safonau Ansawdd Craidd: Mae'r CQS yn cynnwys pob agwedd bwysig o'n gwaith mewn 12 maes allweddol, o ddarparu cyngor i'r heddlu cyn cyhuddo i ddedfrydu a phrosesau apêl. Maent yn sicrhau bod ansawdd yn ganolog i'r cyfan a gyflawnir gennym fel gwasanaeth.

Yr Uned Cydraddoldeb ac Amrywiaeth: Uned strategol sy'n sefyll ar ei phen ei hun yw EDU, yn adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus (DPP), gyda chyfrifoldeb am alluogi a chefnogi'r sefydliad i sicrhau bod Datganiad Cydraddoldeb y CPS yn troi'n realiti a bod y CPS yn gwella'i berfformiad ar gydraddoldeb ac amrywiaeth.

Ardaloedd CPS: Mae'r CPS wedi'i rannu yn 13 Ardal ddaearyddol ledled Cymru a Lloegr. Caiff pob Ardal ei harwain gan un o Brif Erlynyddion y Goron (CCP) sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaeth erlyn o ansawdd uchel yn eu Hardal. Cefnogir pob CCP gan Reolwr Busnes Ardal (ABM), ac mae eu rolau unigol yn adlewyrchu, ar lefel leol, gyfrifoldebau y DPP a'r Prif Weithredwr. Caiff 14eg Ardal 'rithiol', CPS Direct, ei harwain hefyd gan CCP ac mae'n darparu penderfyniadau ar gyhuddo tu allan i oriau ar gyfer yr heddlu.

CSPD: Mae CPS Direct yn darparu penderfyniadau ar gyhuddo tu allan i oriau ar gyfer yr heddlu. Gwasanaeth ffôn a seiliedig ar Dechnoleg Gwybodaeth yw CPS Direct, bydd swyddogion yr heddlu yn rhoi galwad i rif cenedlaethol ac yn derbyn penderfyniadau ar gyhuddo dros y ffôn ac e-bost. Mae CPSD yn gweithredu o 5pm hyd 9am, Dydd Llun i Ddydd Gwener, a thrwy'r dydd ar y penwythnosau ac yn ystod gwyliau cyhoeddus. Mewn wythnos arferol bydd yn derbyn dros 3000 o alwadau gan swyddogion yr heddlu ledled Cymru a Lloegr.

LSIP: Mae Ardaloedd yn ymgysylltu drwy Baneli Craffu ac Ymgysylltu Lleol (LSIPs). Mae'r rhain yn cynnwys cynrychiolwyr cymuned a staff. Mae LSIPs yn craffu ar achosion troseddau casineb caeedig a Thrais yn erbyn Menywod er mwyn darparu adborth i alluogi'r CPS i wella erlyniadau ar yr achosion hyn. Maent hefyd yn fforwm ar gyfer ymgynghori lleol.

**Fflagiau Monitro:** Nodir mathau o achosion sensitif drwy ddefnyddio nifer o fflagiau monitro, gaiff eu defnyddio gydag achosion priodol yn ystod y cam cyn gyhuddo. Mae'r fflagiau yn caniatáu i reolwyr fonitro gweithrediadau yn ystod oes yr erlyniad, a galluogi adrodd ar ddeilliannau yn dilyn cwblhau'r achos.

## Deilliannau achos

**Erlyniadau**: Pob diffynnydd a gyhuddwyd neu a dderbyniodd wŷs y bydd ei achos wedi'i gwblhau mewn llys ynadon neu Lys y Goron yn ystod y cyfnod, yn cynnwys y rheiny fydd yn symud ymlaen i dreial neu ble euog, y rhai a derfynwyd a'r rhai na allent barhau.

Deilliannau Aflwyddiannus: Pob erlyniad sydd wedi'u cwblhau ond y diffynnydd heb ei euogfarnu, yn cynnwys y canlynol:

Wedi eu terfynu a'u tynnu yn ôl: Gall ystyriaeth o'r dystiolaeth a budd y cyhoedd arwain y CPS i derfynu'r achos unrhyw adeg cyn dechrau'r treial. Yn gynwysedig yma mae achosion a derfynwyd yn ffurfiol cyn y gwrandawiad, y rheiny na chynigiwyd unrhyw dystiolaeth ynddynt, a'r rheiny a dynnwyd yn ôl yn ystod yr achos llys. Hefyd yn gynwysedig mae achosion pan ymrwymwyd y diffynnydd i gadw'r heddwch.

Euogfarnau**:** Achosion lle caiff y diffynnydd ei ddyfarnu'n euog yn dilyn erlyniad, yn cynnwys:

Ple euog: Lle bydd y diffynnydd yn pledio'n euog.

| | |
|---|---|
| Euogfarn yn dilyn treial: | Achosion pan fydd y diffynnydd yn pledio'n ddieuog, ond yn cael ei euogfarnu ar ôl gwrando ar y dystiolaeth. |

## Atodiad A Prif gerrig milltir yn oes y strategaeth

| 2007/08 | 2008/09 | 2009/10 | 2010/11 |
|---|---|---|---|
| **VAWG** | | | |
| Datblygu ac ymgynghori ar strategaeth VAWG. | Yr adran llywodraeth gyntaf i gyhoeddi strategaeth VAWG. | Cyflwyno'r strategaeth VAWG traws lywodraethol gyntaf. | Ymateb y llywodraeth i Adolygiad Stern ar dreisio yn cael ei gyhoeddi a naratif strategol VAWG. |
| Sefydlu Grŵp Ymgynghori Allanol. | | Cynnal arolwg boddhad rhanddeiliaid. | |
| 98 SDVCs yn cael eu hachredu. | 122 SDVCs yn cael eu hachredu. | 141 SDVCs yn cael eu hachredu. | 143 SDVCs yn cael eu hachredu. |
| Cylchlythyrau ar drais yn y cartref a throseddau rhywiol difrifol. | Ad drefnu cydgysylltwyr VAWG. | Seminar yn cael ei chynnal ar gyfer cydgysylltwyr VAWG. | Cylchlythyr VAWG yn cael ei gyhoeddi bob chwarter |
| | Dangosydd VAWG yn cael ei roi ar waith | | Safonau Ansawdd Craidd (CQS) yn cael eu lansio gan gynnwys mesur dilysu VAWG newydd ac asesiad o sampl o achosion treisio. |
| | | | System sicrwydd VAWG yn cael ei chyflwyno. |
| | HCSP yn craffu ar DV. | | LSIPs yn cynnwys VAWG. |

| 2007/08 | 2008/09 | 2009/10 | 2010/11 |
|---|---|---|---|
| **Treisio** | | | |
| | Polisi diwygiedig ar gyfer erlyn achosion o dreisio. | Bu pob CCP ar raglen hyfforddi ar dreisio.<br><br>Canllawiau gan ACPO/CPS ar y cyd ar ymchwilio i dreisio a'i erlyn. | Canllawiau cyfreithiol wedi'u cyhoeddi ar wyrdroi cwrs cyfiawnder mewn achosion yn cynnwys honiadau o dreisio a/neu drais yn y cartref.<br><br>Pob arbenigwr ar dreisio wedi'u hyfforddi erbyn Mawrth 2011. |
| | | Ymweliadau ar y cyd gan ACPO/CPS i 39 Ardal CPS a heddluoedd. Yn dilyn yr ymweliadau, derbyniodd y CCPs a Phrif Swyddogion yr Heddlu adroddiadau ysgrifenedig oedd yn dynodi a rhannu arfer da a darparu camau oedd yn cael eu hargymell ar gyfer gwella.<br><br>Ysgrifennodd y DPP at yr holl CCPs gan ymdrin â materion mewn erlyniadau treisio a lansio hyfforddiant arbenigol ar gyfer CCPs.<br><br>Y CPS yn cysylltu â 29 SARCs. | Cynhaliwyd gwerthusiad o dair uned RASSO, yng Ngorllewin Swydd Efrog, Glannau Merswy a Hampshire, gydag ACPO.<br><br>Cyhoeddodd y DPP gyfres o fesurau i gryfhau erlyniadau treisio. |

| 2007/08 | 2008/09 | 2009/10 | 2010/11 |
|---|---|---|---|
| **DV** | | | |
| | 3ydd adolygiad o bolisi a chanllawiau cyfreithiol DV.<br><br>Torri gorchymyn trosedd peido ag ymyrryd yn drosedd.<br><br>Cwblhau hyfforddiant i 4500 o staff ar drais yn y cartref (DV).<br><br>Adolygiad thematig DV ar faterion dioddefwyr a thystion<br><br>Mis gweithredu anabledd DV. | Lansio e-ddysgu DV ar gyfer holl staff newydd.<br><br>Canllawiau ar gael gorchmynion ataliol ar gyfer pob trosedd. | Cyhoeddi canllawiau cyfreithiol ar stelcio ac aflonyddu. |
| | | Canllawiau VAWG yn cael eu dosbarthu i bob erlynydd. | |
| **Masnachu mewn Pobl a Phuteindra** | | | |
| | Canllawiau cyfreithiol ar fasnachu mewn pobl.<br><br>Rhoi hyfforddiant i un erlynydd profiadol ym mhob rhanbarth ac unedau gwaith achos | Cyhoeddwyd canllawiau pellach ar erlyn rhai dan amheuaeth allai fod yn ddioddefwyr masnachu eu hunain. | Cyhoeddi Datganiad Polisi Cyhoeddus ar fasnachu mewn pobl.<br><br>Daeth trosedd sy'n sefyll ar ei phen ei hun o ddal unigolyn arall mewn |

| 2007/08 | 2008/09 | 2009/10 | 2010/11 |
|---|---|---|---|
| | canolog ar fasnachu. | | llafur gorfodol neu gaethwasiaeth a chaethiwed i rym dan adran 4 o'r Ddeddf Lloches a Mewnfudo. |
| | | Daeth darpariaethau yn y Ddeddf Heddlu a Throseddau 2009 i rym: gorchmynion cau puteindai, newid trefniadau trwyddedu clybiau dawnsio glin.<br><br>Cyhoeddwyd polisi a chanllawiau cyfreithiol ar gamfanteisio ar buteindra<br><br>Cyflwynwyd trosedd newydd, i griminaleiddio'r rheiny sy'n talu am wasanaethau rhywiol putain sydd wedi bod yn destun gorfodaeth neu gamfanteisio. | Cyhoeddi canllawiau newydd ar gamfanteisio ar buteindra.<br><br>Yn gysylltiedig â datblygu Strategaeth Plismona newydd ACPO ar Buteindra a Chamfanteisio Rhywiol i gefnogi gwaith heddluoedd wrth blismona puteindra. |
| | | Cyhoeddi Canllaw Cyflogai ar Drais yn erbyn Menywod. | |
| **HBV/FM/FGM** | | | |
| Cynllun peilot HBV ac FM. | Adroddiad ar y cynllun peilot HBV/FM yn cael ei gyhoeddi. | Canllawiau HBV/FM ac arbenigwyr yn cael eu dewis. | Hyfforddiant ar gyfer arbenigwyr HBV/FM. |
| | | | Canllawiau cyfreithiol ar Lurgunio Organau Rhywiol Merched yn cael eu cyhoeddi. |

| 2007/08 | 2008/09 | 2009/10 | 2010/11 |
|---|---|---|---|
| **Cam-drin Plant** | | | |
| | | Cytuno ar ddiffiniad y CPS o “cam-drin plant”.<br><br>Canllawiau cyfreithiol ar erlyn cam-drin plant yn cael eu cyhoeddi. | Cytuno ar brotocol Rhybudd Achub Plentyn domestig a rhyngwladol gyda’r Asiantaeth Gwella Plismona Genedlaethol (NPIA).<br><br>Cyhoeddi canllaw diwygiedig ar gyfer erlynyddion ar y dull o ddelio ag ‘Achosion Anafiadau Pen Nad Ydynt yn Ddamweiniol’ [NAHI] (y cyfeiriwyd ato’n flaenorol fel Syndrom Babi wedi’i Ysgytio). |
| **Troseddau yn Erbyn Pobl Hŷn** | | | |
| | Lansio datganiad polisi cyhoeddus a chanllawiau ar droseddau yn erbyn pobl hŷn. | | |
| **Pornograffi** | | | |
| | Seminar ar Bornograffi ac Anlladrwydd. | Seminar ar Bornograffi ac Anlladrwydd. | |

# Atodiad B: Sefydliadau Grŵp Ymgynghori Allanol

Against Violence and Abuse (AVA)
Broken Rainbow
Gweithredu Cydlynus yn erbyn Trais Domestig (CAADA)
Canolfan Ddysgu Cassandra
CIS'ters
Eaves Housing
Prosiect Poppy
Sefydliad EMF
Terfynu Trais yn erbyn Menywod
Forward
HMCPSI
Imkaan
Internet Watch Foundation
Justice for Women
Nia
Asiantaeth Gwella Plismona Cenedlaethol (NPIA)
Y Gymdeithas Atal Creulondeb i Blant (NSPCC)
Yr Athro Alistair Gillespie
Yr Athro Liz Kelly
Rape Crisis
Refuge
Respect
Rights of Women
Southall Black Sisters
Women's Aid
Cymorth i Fenywod Cymru
Sefyll Gyda'n Gilydd yn Erbyn Trais Domestig
Ymddiriedolaeth Survivors
Ymddiriedolaeth Suzy Lamplugh
Victim Support
Voice UK

## Uned Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

**Mae'r adroddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho**

**ar wefan y CPS**

**www.cps.gov.uk/publications/equality/vaw/index.html**

Gorffennaf 2012